# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Cyffredinol*

**25 Atebolrwydd uwch-swyddogion etc.**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo trosedd o dan y Ddeddf hon yn cael ei chyflawni gan—

(a) corff corfforaethol;

(b) partneriaeth;

(c) cymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth.

(2) Os profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gan y canlynol, neu gyda chydsyniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) uwch-swyddog i'r corff corfforaethol neu'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig, neu

(b) unrhyw berson sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn rhinwedd a grybwyllir ym mharagraff (a),

mae'r uwch-swyddog hwnnw neu'r person hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforaethol, y bartneriaeth neu'r gymdeithas) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "uwch-swyddog" yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforaethol, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner yn y bartneriaeth;

(c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, unrhyw swyddog i'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu.

(4) Yn is-adran (3), ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 25 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 25.